

Pecyn Dogfen Cyhoeddus



At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Craffu Partneriaethau Dyddiad: 30 Mehefin 2021
Rhif Union: 01824 712554
ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU, DYDD IAU, 8 GORFFENNAF 2021 am 10.00 am yn TRWY GYNHADLEDD FIDEO.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYNS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 20 Mai 2021 (copi ynghlwm).

10:05am – 10:15am

**5 BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR GWASANAETHAU
METHIANT Y GALON BIPBC YN SIR DDINBYCH A'I EFFAITH AR
WASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL Y CYNGOR** (Tudalennau 15 - 18)

Derbyn gwybodaeth ar statws cyfredol Gwasanaethau Methiant y Galon BIPBC a ddarperir yn Sir Ddinbych a ledled Gogledd Cymru (copi ynghlwm).

10:15 – 11:00am

~~~ EGWYL ~~~

**6 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR DDIOGELU OEDOLION YN SIR  
DDINBYCH 1 EBRILL 2020 – 31 MAWRTH 2021** (Tudalennau 19 - 32)

Ystyried adroddiad gan Reolwr Tîm Gwasanaethau Diogelu Gweithredol (copi ynghlwm) sydd am i'r Pwyllgor adolygu cynnydd y Cyngor o ran trefniadau ac arferion diogelu lleol yn ystod y cyfnod uchod, a'u heffaith ar oedolion diamddiffyn yn y sir.

11:15am – 12:00pm

**7 RHAGLEN WAITH CRAFFU** (Tudalennau 33 - 54)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynydd Craffu (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwylgor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol.

12:00pm – 12:15pm

**8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Derbyn unrhyw ddiweddarriadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar wahanol Fyrrdau a Grwpiau'r Cyngor.

12:15pm – 12:25pm

## AELODAETH

### Y Cynghorwyr

Y Cyngorydd Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd)

Joan Butterfield  
Ann Davies  
Gareth Davies  
Hugh Irving  
Pat Jones

Y Cyngorydd Emrys Wynne (Is-Gadeirydd)

Christine Marston  
Melvyn Mile  
Rhys Thomas  
David Williams

## **COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## Cod Ymddygiad Aelodau

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

**Cyngor Sir Ddinbych**

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(*Gweler y nodyn isod*)\*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Eitem Agenda 4

## PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd trwy fideogynadledda ddydd iau, 20 Mai 2021 am 10.00am.

### YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Hugh Irving, Melvyn Mile, Rhys Thomas, David Williams ac Emrys Wynne

**Arsylwi** – Y Cyngorwyr Meirick Lloyd Davies a'r Cyngorydd Gwyneth Kensler

**Hefyd yn bresennol** – Y Cyngorydd Hugh Evans - Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Arweiniol dros yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB), Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (EJ), Prif Swyddog Digidol (BE), Swyddog Arweiniol Datblygu Busnes a'r Economi – Mewnfuddsoddi a Thwf Uchel (JCE), Rheolwr Prosiect (HV-E), Cydlynnydd Craffu (RE) a Gweinyddwr y Pwyllgor (SJ).

**Cynrychiolwyr Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru oedd yn bresennol -**  
Alwen Williams – Cyfarwyddwr Portffolio  
Hedd Vaughan-Evans – Rheolwr Gweithrediadau

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cyngorwyr Ann Davies a Christine Marston.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau. Gweithredodd Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Parth Cyhoeddus fel dirprwy yn ystod y cyfarfod.

## 2 PENODI IS-GADEIRYDD

Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer swydd Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn gyngor 2021/22. Enwebwyd y Cyngorydd Emrys Wynne gan y Cyngorydd J Chamberlain-Jones a'i eilio gan y Cyngorydd David Williams. Ni chyflwynwyd unrhyw enwebiadau eraill.

Penderfynodd y Pwyllgor felly:

***Ethol y Cyngorydd Emrys Wynne yn Is-gadeirydd Pwyllgor Craffu Partneriaethau ar gyfer blwyddyn gyngor 2021/22.***

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyngorydd Wynne am ei gefnogaeth iddi dros y flwyddyn ddiwethaf, a dymunodd yn dda iddo ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Diolchodd y Cyngorydd Wynne i'r aelodau am eu cefnogaeth ac am ymddiried tymor arall yn Is-gadeirydd y Pwyllgor iddo.

### **3 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

### **4 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

### **5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau, a gynhaliwyd ar 15 Ebrill 2021.

Cynghorwyd yr aelodau yr ychwanegid rhagor o wybodaeth dan eitem fusnes 7 ar yr agenda, Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor, mewn perthynas â'r pwynt a godwyd ynghylch cynnal sesiynau briffio cyn cyfarfodydd y Pwyllgor. Felly:

***Penderfynwyd: - cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 15 Ebrill 2021 fel cofnod cywir o'r trafodion.***

### **6 ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU 2020/21**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Arweinydd, Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol. Cyflwynodd yr Arweinydd y swyddogion oedd yn bresennol ar gyfer yr eitem hon ar yr agenda: Alwen Williams – Cyfarwyddwr y Portffolio, a Hedd Vaughan-Evans – Rheolwr Gweithrediadau o Fwrdd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (NWEAB), ynghyd â swyddogion o'r awdurdod. Clywodd aelodau am bwysigrwydd cyfarfodydd chwarterol a fynychid gan swyddogion er mwyn gweithio gyda thîm rheoli'r portffolio er mwyn deall, a dylanwadu ar, y gwaith rhanbarthol sy'n cael ei wneud.

Eglurwyd bod yr adroddiad yn ddiweddarriad ar y Fargen Dwf y cytunwyd arni gan y Cyngor Llawn. Eglurwyd bod y gwaith wedi dechrau ar gam darparu'r rhaglen waith. Rhan o'r cytundeb oedd adrodd i'r pwyllgor Craffu ddwywaith y flwyddyn er mwyn rhoi gwybod i'r aelodau am y cynnydd a wnaed. Eglurodd yr Arweinydd i'r aelodau lefel y gwaith a'r manylion sy'n angenrheidiol mewn perthynas â'r prosiectau cyn cyflwyno'r achosion busnes.

Arweiniodd Alwen Williams, Cyfarwyddwr y Portffolio, yr aelodau drwy gyflwyniad byr oedd yn darparu gwybodaeth gefndir. Eglurwyd mai bwriad y Fargen Dwf oedd darparu economi fwy bywiog, cynaliadwy a chadarn yng ngogledd Cymru. Adeiladau ar gryfderau sy'n bodoli eisoes er mwyn cynyddu cynhyrchiant a mynd i'r afael â heriau a rhwystrau economaidd hirdymor. Eglurwyd bod tair amcan wario wedi'u nodi yn yr achos busnes. Nodwyd mai creu swyddi, Gwerth Ychwanegol

Gros (GVA), a buddsoddi oedd y rhain. Clywodd aelodau mai'r amcan oedd creu hyd at 4,200 o swyddi.

Seiliwyd y Fargen Dwf ar ddarparu un ar hugain o brosiectau trawsffurfiol ar draws pum rhaglen (a ddiffinnir fel naill ai rhaglenni twf uchel neu raglenni galluogi).

Roedd dwy raglen yn canolbwytio ar alluogi'r rhanbarth, a rhaglenni cysylltedd digidol, a thir ac eiddo, oedd y rhain. Ariannwyd y rhaglenni hyn gan y fargen dwf. Gobeithid y byddai cyflawni yn y sectorau hyn yn galluogi busnesau i fuddsoddi yn y rhanbarth a'r farchnad lafur er mwyn manteisio ar y cyfleoedd cyflogaeth newydd. Pwysleisiwyd bod y gwaith partneriaeth ar draws gogledd Cymru'n gydlynus ac yn effeithlon.

Darparodd Cyfarwyddwr y Portffolio ganllawiau pellach ynghylch cysylltedd digidol. Eglurwyd mai gwella cysylltedd digidol oedd y nod. Roedd y prosiect yn mynd i'r afael ag anghenion cwsmeriaid a dinasyddion. Roedd y rhaglen ddigidol wedi nodi'r angen i gydbwyo buddsoddiad, isadeiledd a thechnoleg drwy fand eang sefydlog mewn safleoedd allweddol ac ardaloedd gwledig. Eglurwyd bod dwy brif gydran wedi'u cynnwys yn y rhaglen ddigidol. Y cydrannau a gynhwyswyd oedd prosiect cysylltedd digidol a phrosiect arloesi gyda Phrifysgol Bangor.

Darparwyd gwybodaeth ynghylch y Rhaglen Tir ac Eiddo. Nododd y rhaglen fod diffyg tir ac eiddo addas i fusnesau eu datblygu. Clywodd aelodau fod sawl prosiect allweddol wedi'u setlo, yn cynnwys Porth Caergybi, safle Porth Gorllewinol Wrecsam, safle strategol allweddol ym Modelwyddan, Safle Strategol Bryn Cegin ym Mangor, hen safle Ysbyty Gogledd Cymru yn Ninbych, a Neuadd Warren yn Sir y Fflint.

Roedd y tair rhaglen arall yn canolbwytio ar gryfderau allweddol yn y sectorau gwerth uchel yn y rhanbarth. Nod y rhaglenni oedd cynyddu gwerth ac effaith y sector twf uchel. Y rhaglen gyntaf oedd un ynni carbon isel gyda'r nod o ddatgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol. Roedd y prosiectau oedd yn rhan o'r rhaglen ynni carbon isel yn cynnwys Morlais, prosiect ynni morol, Gorsaf Bŵer Trawsfynydd, canolfan ragoriaeth carbon isel yn gweithio gyda Phrifysgol Bangor, ynni lleol clyfar a datgarboneiddio cludiant.

Roedd y Rhaglen Arloesi Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel yn ceisio cadarnhau safle presennol gogledd Cymru fel clwstwr gweithgynhyrchu arloesol, gwerth uchel. Y bwriad oedd adeiladu ar arbenigeddau sefydledig yr ardal a datblygu arbenigedd er mwyn creu sail economaidd fwy amrywiol er mwyn cefnogi symud at greu economi garbon isel mewn gweithgynhyrchu. Roedd partneriaid academaidd wedi cytuno i gydweithio ar ddu brosiect allweddol: un oedd datblygu Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol gyda Phrifysgol Bangor. Yr ail oedd Canolfan Menter Peirianneg ac Opteg gyda Phrifysgol Glyndŵr.

Byddai'r Rhaglen Bwyd-amaeth a Thwristiaeth yn cefnogi ac yn datblygu cynaliadwyedd ac yn gwella cyfleoedd cyflogaeth drwy'r amgylchedd a'r tirlun. Rhoddyd gwybod i'r aelodau y byddai tri phrosiect allweddol yn digwydd fel rhan o'r rhaglen. Y tri phrosiect hynny yw Clwb Economi Wledig Glynllifon, Canolfan Garbon Niwtral Llysfa'i a Rhwydwaith TALENT Twristiaeth.

Arweiniodd y Rheolwr Gweithrediadau, Hedd Vaughan-Evans, yr aelodau drwy wybodaeth ynghylch cynnydd rhaglenni'r Fargen Dwf, a phrosiectau Chwarter 4 2021 (Ionawr – Mawrth). Cadarnhawyd mai hwn oedd yr adroddiad cynnydd cyntaf i gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu. Roedd y canolbwyt wedi bod yn symud i'r cam darparu, a nodwyd bod holl brosiectau Bargen Dwf Gogledd Cymru yn dal ar y cam datblygu achosion busnes. Cadarnhawyd bod yr holl brosiectau wedi'u hadolygu er mwyn ailgadarnhau amserlenni. Eglurwyd bod pob prosiect yn cael ei ddatblygu yn unol â chanllawiau Achosion Busnes Gwell. Datblygwyd achosion busnes drwy ddefnyddio gweithdai er mwyn cynnwys cymaint â phosib o fudd-ddeiliaid yn y gwaith o drafod a chytuno ar fodelau cyflawni.

Roedd angen i bob prosiect fod yn destun adolygiad trothwy gan banel annibynnol er mwyn gwerthuso'r prosiect ar adegau allweddol yn natblygiad y prosiect. Cadarnhawyd bod dau brosiect wedi cwblhau'r cam hwn yn y datblygiad. Prosiect Morlais, dan arweiniad Menter Môn, a Phrosiect Canolfan Menter Peirianneg ac Opteg dan arweiniad Prifysgol Glyndŵr Wrecsam oedd y ddau hyn.

Clywodd yr aelodaeth bod dau brosiect wedi cael eu nodi'n 'Goch', a'r rheini oedd y Safle Strategol Allweddol ym Modelwyddan a phrosiect Porth Caergybi. Roedd nifer o brosiectau'n 'Oren', yn bennaf oherwydd bod yr amserlen datblygu busnes yn cymryd mwy o amser nag a amcangyfrifwyd yn wreiddiol. Nododd y Rheolwr Gweithrediadau, yn ei farn ef, nad oedd unrhyw bryderon sylweddol ynghylch y prosiectau hyn.

Nodwyd mai'r cyflawniadau mwyaf arwyddocaol yn ystod chwarter 4 oedd derbyn llythyr yn dweud bod grant wedi'i roi gan Lywodraethau Cymru a'r DU, a derbyn rhandaliad cyntaf y cyllid ym mis Mawrth 2021.

Cyflwynwyd uchafbwyntiau'r adroddiad blynnyddol i'r aelodau. Roedd yr adroddiad yn dangos y cynnydd a wnaed ar y Fargen Dwf a'r gweithgareddau a gefnogwyd gan Swyddfa Rheoli'r Portffolio. Roedd yr aelodau'n cydnabod yr anawsterau yr oedd y Bwrdd wedi'u hwynebu yn ystod 2020/21 oherwydd pandemig COVID-19. Nodwyd bod cytundebau'r Fargen Derfynol wedi'u harwyddo yn ystod seremoni ar-lein ar 17 Rhagfyr 2020, yn unol â'r amserlen wreiddiol. Sefydlwyd perthnasoedd gweithio agos gydag awdurdodau lleol a Llywodraethau Cymru a'r DU a chynrychiolwyr eraill o'r sector cyhoeddus er mwyn cydlynu ymateb y rhanbarth i'r adferiad economaidd.

Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr y Bwrdd am y cyflwyniad manwl a'r adroddiad trylwyr o waith y Bwrdd hyd yn hyn. Mewn ymateb i gwestiynau gan yr aelodau, ehangodd yr Aelod Arweiniol, y swyddogion a chynrychiolwyr y Bwrdd, ar y pethau canlynol:

- Yr £16miliwn a dderbyniwyd gan y Llywodraeth oedd rhandaliad cyntaf arian cyfalaf y fargen dwf a ddyrannwyd i'r prosiectau.  
Roedd y £2.9miliwn a sicrhawyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn gyllid refeniw ar gyfer swyddfa rheoli'r portffolio dros gyfnod o dair blynedd.  
Byddai'r partneriaid yn cyfateb y cyllid refeniw er mwyn gwneud cyfanswm y cyllid refeniw yn ychydig llai na £6m dros y tair blynedd gyntaf.
- Roedd Prosiect Morlais a Phrosiect Glyndŵr wedi bod yn mynd drwy'r gwahanol byrth ar adegau gwahanol.

Roedd y ddau brosiect yn dod yn eu blaenau ac nid oedd unrhyw bryderon wedi'u nodi.

- Roedd pedwar prosiect isadeiledd yn swyddfa'r portffolio digidol. Cadarnhawyd bod dau o'r prosiectau wedi'u gohirio. Roedd dau brosiect yn cael eu blaenoriaethu ar y pwynt hwn, a byddai'r ddau brosiect oedd wedi'u gohirio'n ailddechrau ac yn cael eu symud ymlaen ar ddyddiad diweddarach. Pwysleisiwyd nad oedd dim problemau gyda'r prosiectau er bod oedi wedi bod, a'u bod yn dal ar y trywydd iawn ac yn dal i lynnau at yr amserlen a nodwyd.
- Roedd swyddfa'r portffolio wedi creu'r adroddiad gan ystyried y llinell amser gyfredol.  
Nododd y swyddogion, wrth i'r prosiectau a'r rhagleni fynd rhagddynt, efallai y byddai angen cynnwys tabl gwybodaeth ar wahân er mwyn dangos y gwaith a ddechreuwyd ar wahân.
- Roedd cyswllt agos iawn wedi bod gyda'r holl awdurdodau lleol er mwyn cydweithio i gefnogi prosiectau'r Bwrdd er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â disgwyliadau lleol pob awdurdod.
- Roedd polisiau cynllunio'n cynnwys polisi cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru; roedd awdurdodau lleol wedi mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol (CDLI), a chyn hir byddai angen datblygu cynllun rhanbarthol. Pwysleisiodd y swyddogion bod gan Awdurdodau Lleol bwerau i ddatblygu'r Cynlluniau Datblygu Lleol. Roedd gan aelodau'r rheolaeth i ddatblygu'r CDLI er mwyn mynd i'r afael â'r anghenion lleol. Roedd ar y Bwrdd eisiau datblygu prosiectau yr oedd Awdurdodau Lleol yn eu cefnogi.
- Roedd prosiect gyda Choleg Cambria, Llysfasi, yn archwilio sut y gallai arloesi gynorthwyo'r gallu i fod yn gynhyrchiol ym maes amaeth drwy greu fferm garbon niwtral.  
Byddai'r prosiect yn arddangos y gallu i fod yn fwy arloesol a chynhyrchiol ym maes amaeth.
- Roedd penderfyniadau mewn perthynas â safle strategol allweddol Bodelwyddan yn cael eu rhoi ar encil, wrth aros i Sir Ddinbych benderfynu ar y polisi cynllunio ar gyfer y safle.
- Diolchodd aelodau'r Bwrdd i'r aelodau am y wybodaeth am hen safle Ysbyty Gogledd Cymru yn Ninbych, a byddent yn adolygu'r codio yng nghyfarfod nesaf y bwrdd.

Diolchodd yr aelodau i bawb a gymrodd ran yn y cyflwyniad ac yn y gwaith o ymateb i'r cwestiynau a'r pryderon a godwyd.

Bu i'r Pwyllgor:

**Benderfynu: - yn amodol ar y sylwadau a'r arsylwadau uchod, dderbyn Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 2020/21 ac Adroddiad Blynnyddol 2020/21 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (NWEAB).**

## 7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) oedd yn gofyn i'r aelodau adolygu Rhaglen Waith y Pwyllgor, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â materion perthnasol.

Bu trafodaeth ynghylch y materion canlynol:

- Roedd atodiad un yn rhestru'r cyfarfodydd sydd i ddod a'r adroddiadau a gynigiwyd.  
Adroddiad gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynghylch cynlluniau cyfalaф ar gyfer gwasanaethau yn Sir Ddinbych. Gwnaed cais i'r Cadeirydd ohirio'r eitem, gan fod y swyddogion iechyd yn aros am ymateb gan Lywodraeth Cymru ynghylch y cynllun busnes. Byddai'r eitem yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor ar y cyfle cyntaf unwaith y byddid wedi derbyn adborth gan Lywodraeth Cymru.
- Nid oedd unrhyw eitemau wedi'u hychwanegu at y RhGD yn dilyn cyfarfod Grŵp y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion.
- Cadarnhaodd y Cydlynydd Craffu bod gan y cyfarfod nesaf ar 8 Gorffennaf dri adroddiad arfaethedig, gyda'r posiblwydd o ychwanegu adroddiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ato.
- Cafodd aelodau wybod am yr anhawster cyfredol wrth weinyddu sesiwn frifio cyn cyfarfodydd.  
Petai aelodau'n teimlo bod angen cynnal cyfarfod briffio cyn cyfarfod, dylent gysylltu â'r Cadeirydd a Chydlynydd Craffu i drafod hynny. Ar hyn o bryd, nid fyddid yn trefnu cyfarfod briffio ar gyfer pob cyfarfod.
- Teimlai aelodau y byddai sesiynau briffio cyn cyfarfodydd yn fuddiol cyn derbyn adroddiadau'r Bwrdd Iechyd.
- Pwysleisiodd aelodau bwysigrwydd derbyn adroddiad Cynlluniau Cyfalaф Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr cyn gynted â phosibl, yn enwedig er mwyn mynd i'r afael â hen safle Ysbyty Brenhinol Alexandra yn y Rhyl. Deellid mai etholiadau'r Senedd oedd yn gyfrifol am yr oedi cyn derbyn ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Bu i'r Pwyllgor:

**Benderfynu: - yn amodol ar y sylwadau a'r arsylwadau uchod –**

- (i) *gadarnhau rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor (Atodiad 1); a*  
*(ii) petai hynny'n angenrheidiol, cynnal cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor i drafod cynlluniau cyfalaф y Bwrdd Iechyd yn Sir Ddinbych unwaith y byddai Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi derbyn ymateb gan Lywodraeth Cymru i'w achos busnes diweddaraf ar gyfer cyfleuster Ysbyty Cymunedol newydd yng ngogledd Sir Ddinbych.*

## 8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Roedd y Cydlynydd Craffu wedi derbyn adroddiad gan y Cynghorydd Christine Marston ar ôl iddi fynd i gyfarfodydd dau grŵp lle roedd hi'n cynrychioli'r Pwyllgor. Darparodd y Cydlynydd Craffu'r adborth i'r Pwyllgor fel a ganlyn.

Y cyfarfod cyntaf yr aeth y Cynghorydd Marston iddo oedd Grŵp Cyfeirio Budd-ddeiliaid Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a gynhalwyd ar 22 Mawrth 2021. Eglurwyd i'r aelodau bod cynllun tair blynedd y Bwrdd Iechyd wedi'i ohirio oherwydd Covid. Eglurwyd y byddid yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad pan fyddai'r cam adfer yn dechrau. O ran gofal wedi'i gynllunio roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

yn gobeithio creu lleoedd. Clywodd yr aelodau mai'r nod oedd creu ffenestr 6-8 wythnos o hyd ar gyfer ail ddos Brechlyn Covid, gyda'r gobaith na fyddai angen y canolfannau brechu ar ôl mis Gorffennaf.

Roedd gwaith ymgysylltu'r strategaeth ddigidol wedi dechrau ond roedd cyfyngiadau oherwydd Covid. Y bwriad oedd sefydlu un cofnod digidol i gleifion. Cyflwynwyd Fframwaith Gwella Ymyriad wedi'i Dargedu (TIIF) er mwyn archwilio gwelliannau i sut roedd Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gweithredu gyda'r bwriad o wella performiad.

Roedd y Cynghorydd Marston hefyd wedi bod i gyfarfod Bwrdd Prosiect yr Uned Breswyl ar gyfer Plant, a gynhaliwyd ar 18 Mai 2021. Cadarnhawyd mai enw'r uned newydd fyddai Bwthyn y Ddôl, ac y byddai wedi'i lleoli rhwng Pencadlys yr Heddlu a Pharc Eirias ym Mae Colwyn. Gwariant presennol y prosiect oedd £2.6miliwn. Mae'r gwaith adeiladu ar y safle i fod i ddechrau ym mis Mehefin 2021, a'r dyddiad cwblhau arfaethedig yw mis Mai 2022. Mae'r uned wedi'i dylunio i letya plant o Gonwy a Sir Ddinbych er mwyn iddynt gael triniaethau therapiwtig dwys. Byddai tair ardal yn y cyfleuster: - gofal wedi'i gynllunio ar gyfer cleifion mewnol, gofal heb ei gynllunio i gleifion mewnol, ac ardal asesu.

Cadarnhawyd bod aelodau tîm amldisgyblaethol eisoes yn eu lle. Roedd cynlluniau dros dro wedi'u llunio er mwyn lletya plant sydd angen gofal ar hyn o bryd, gyda llety dros dro ym Mae Colwyn. Roedd gwaith hefyd yn cael ei wneud ar gostau cynnal parhaus yr uned hon yn y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cydlynnydd Craffu am yr adroddiad ar sail presenoldeb y Cynghorydd Marston yn y cyfarfodydd.

Felly:

**Penderfynwyd: - derbyn adroddiad y Cynghorydd Marston ynghylch trafodaethau diweddar yn Grŵp Cyfeirio Budd-ddeiliad Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Prosiect yr Uned Asesu Breswyl Is-ranbarthol ar gyfer Plant.**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.40am

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



|                     |                                                                                                            |
|---------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Adroddiad i'r:      | Pwyllgor Craffu Partneriaethau                                                                             |
| Dyddiad y cyfarfod: | 8 Gorffennaf 2021                                                                                          |
| Aelod Arweiniol     | Y Cyngorydd Bobby Feeley                                                                                   |
| Awdur yr Adroddiad: | Phil Gilroy a Helen Wilkinson                                                                              |
| Teitl               | Gwasanaethau Methiant y Galon BIPBC yn Sir Ddinbych a'i effaith ar Wasanaethau Gofal Cymdeithasol y Cyngor |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- Roedd aelod etholedig yng Nghyngor Sir Ddinbych wedi awgrymu y byddai newid mewn Gwasanaethau Methiant y Galon ac y byddai hyn yn cael effaith negyddol ar awdurdodau lleol trwy alw cynyddol am wasanaethau gofal cymunedol. Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi sicrwydd na fu unrhyw newidiadau negyddol o fewn y gwasanaeth a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- Darparu gwybodaeth ar statws cyfredol Gwasanaethau Methiant y Galon BIPBC a ddarperir yn Sir Ddinbych a ledled Gogledd Cymru.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau yn:

- nodi cynnwys yr adroddiad; a
- ystyried a thrafod unrhyw oblygiadau posib i dinasyddion Sir Ddinbych gyda chynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd a swyddogion y Cyngor.

## **4. Manylion yr Adroddiad**

- 4.1. Roedd gan rai agweddau ar Wasanaeth Methiant y Galon BIPBC ffynonellau ariannu dros dro yn gysylltiedig â hwy; deallwn fod hyn wedi achosi rhywfaint o ansicrwydd i'r cyhoedd ynghylch darpariaeth y gwasanaethau hyn yn y dyfodol. **Roedd arian ar gyfer y gwasanaeth hwn ar gael gan y Bwrdd Iechyd o Ebrill 2020.**
- 4.2. Mae BIPBC yn cydnabod gwerth Gwasanaethau Methiant y Galon ledled Gogledd Cymru, ac yn parhau i gefnogi eu datblygiad heb unrhyw gynlluniau i leihau'r ddarpariaeth bresennol.
- 4.3. Mae BIPBC yn gweithio gyda'r gwasanaethau er mwyn i ni barhau i sicrhau bod y gwasanaeth hwn yn parhau i fod ar gael i boblogaeth Gogledd Cymru. Rydym yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth cyfartal i Ogledd Cymru, gan gynnwys Sir Ddinbych.
- 4.4. Mae Rheolwr Strategol Gwasanaethau'r Galon yn gweithio gyda'r timau Methiant y Galon i ddiogelu'r Gwasanaeth Methiant y Galon a sicrhau cynllunio ar gyfer olyniaeth, gofal iechyd yn seiliedig ar werth a Mesurau Canlyniadau sy'n ymwneud â'r Claf.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenorriaethau Corfforaethol?**

- 5.1. Mae darpariaeth Gwasanaethau'r Galon yn cyfrannu at y Flaenorriaeth Gorfforaethol sy'n ymwneud â gweithio gyda phobl a chymunedau i ddatblygu annibyniaeth a gwytnwch gan ei fod yn hyrwyddo iechyd a lles pobl.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

- 6.1. Nid oes unrhyw newidiadau wedi eu cynllunio ar gyfer y Gwasanaeth Methiant y Galon ac felly ni fydd unrhyw effaith uniongyrchol ar gyllidebau neu wasanaethau'r Cyngor.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

- 7.1. Nid oes unrhyw newidiadau wedi eu cynllunio ar gyfer y Gwasanaeth Methiant y Galon ac felly nid oes angen asesiad o'r effaith ar les ar gyfer yr adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

- 8.1. Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriadau gan nad oes unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

- 9.1. Amherthnasol gan nad oes unrhyw newidiadau a fyddai'n effeithio ar gyllidebau'r Cyngor.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

- 10.1. Nid oes yna unrhyw beryglon yn codi o'r adroddiad hwn.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

- 11.1. Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

- 11.2. Adran 7.4.2(e) Cyfansoddiad y Cyngor

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

|                                   |                                                                                                     |
|-----------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Adroddiad i'r</b>              | <b>Pwyllgor Craffu Partneriaethau</b>                                                               |
| <b>Dyddiad y cyfarfod:</b>        | <b>8 Gorffennaf 2021</b>                                                                            |
| <b>Aelod Arweiniol / Swyddog:</b> | <b>Aelod Arweiniol Llesiant ac Annibyniaeth / Pennaeth<br/>Gwasanaethau Cymorth Cymunedol</b>       |
| <b>Awdur yr Adroddiad:</b>        | <b>Rheolwr Tîm Diogelu Gwasanaethau Gweithredol</b>                                                 |
| <b>Teitl</b>                      | <b>Adroddiad Blynnyddol ar Ddiogelu Oedolion yn Sir<br/>Ddinbych 1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021</b> |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys adroddiad perfformiad blynnyddol ar Ddiogelu Oedolion yn unol â chanllawiau statudol ac mae'n darparu trosolwg o effaith trefniadau ac arferion diogelu lleol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi trosolwg i'r Aelodau o effaith trefniadau ac arferion Diogelu Lleol ac adolygu'r cynnydd a wnaed yn y maes gwaith allweddol hwn dros y deuddeg mis diwethaf. Cyfeirio at ddata sy'n adlewyrchu ffigurau a gyflwynir gan yr Awdurdod Lleol yn flynyddol i Uned Ddata Llywodraeth Cymru.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau'n derbyn ac yn rhoi sylwadau ar yr adroddiad a chyd nabod pwysigrwydd ymagwedd gorfforaethol at ddiogelu oedolion mewn perygl a chyfrifoldeb y Cyngor i weld hyn fel maes blaenoriaeth allweddol.

## 4. Manylion yr Adroddiad

- Mae'r 12 mis diwethaf wedi gweld ffocws ar gynnal gwelliannau o ran cysondeb ac ansawdd gwaith diogelu, gan gynnwys dangosydd perfformiad Llywodraeth Cymru o ymholaadau a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod gwaith.
- Rhoddwyd Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar waith ers ei lansio ym mis Medi 2020, yn dilyn oediad yn sgil Covid-19.

4.3 Newidiadau parhaus i arferion ers Covid-19, er mwyn sicrhau bod trigolion Sir Ddinbych yn cael eu diogelu a chymharu data o gyfnod tebyg.

#### 4.4 Gweithgarwch Amddiffyn Oedolion yn Sir Ddinbych 2018 - 2021

| Blwyddyn    | Adroddiadau<br>(atgyfeiriadau) a<br>dderbyniwyd |
|-------------|-------------------------------------------------|
| 2018 - 2019 | 622                                             |
| 2019 - 2020 | 597                                             |
| 2020 - 2021 | 354                                             |

#### 4.5 Penawdau o Ystadegau 2020 - 21

4.5.1 Ar y cyfan, mae gostyngiad sylweddol (40%) wedi bod yn nifer yr adroddiadau diogelu a dderbyniwyd o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Fodd bynnag, mae cynnydd wedi bod yn nifer y galwadau ffôn i'r tîm Diogelu i drafod materion diogelu, a roddodd ychydig o sicrwydd ei fod yn ganolbwyt ar gyfer darparwyr ac asiantaethau eraill er gwaethaf y lleihad yn y niferoedd o adroddiadau.

4.5.2 Er y derbyniwyd llai o adroddiadau yn ystod y flwyddyn, nid ydym wedi gweld cynnydd mewn achosion sydd angen mynd ymlaen i gyfarfod strategaeth, sy'n debyg i dueddiadau'r blynyddoedd diwethaf. Mae ymholiadau adran 126 wedi'u sefydlu'n well mewn arferion diogelu ar draws asiantaethau, a dim ond yr honiadau mwy difrifol o gamdriniaeth neu esgeulustod sy'n mynd ymlaen i'r cyfarfodydd hyn. Mae'r camau ataliol i leihau unrhyw berygl o niwed pellach yn parhau i fod wrth wraidd y cam ymholiadau, gyda'r pwyslais ar ganlyniadau personol yr unigolyn yn ganolog i'r broses ddiogelu.

4.5.3 Cam-drin corfforol (37%)(167) ac esgeulustod (29%)(127) oedd y mathau mwyaf cyffredin o gamdriniaeth a nodwyd, a oedd un waith eto'n debyg i dueddiadau cenedlaethol. Mae'n bwysig nodi y gellir rhoi gwybod am fwy nag un categori o gamdriniaeth o fewn adroddiad diogelu. (Gweler Atodiad 1 am ddata diogelu 2020 – 21)

4.5.4 Ym mis Medi 2020, daeth Adran 5 yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru i rym: *Honiadau/Pryderon diogelu ynghylch ymarferwyr a'r rhai hynny mewn swyddi o ymddiriedaeth*. Mae'r achosion hyn wedi cynyddu'n raddol dros y misoedd h.y. cafwyd un atgyfeiriad yn Ch2, saith atgyfeiriad yn Ch3, a deg atgyfeiriad yn Ch4. Aethpwyd â phob un o'r atgyfeiriadau i gyfarfod trafod strategaeth, gyda chynrychiolaeth gan

asiantaethau amrywiol i bennu p'un a oedd y trothwy wedi'i gyrraedd neu beidio, ac aethpwyd â'r atgyfeiriadau priodol i gyfarfod strategaeth ffurfiol dan y broses Adran 5.

#### **4.6 Dangosyddion Perfformiad**

Rydym wedi parhau i gynnal ein perfformiad mewn perthynas â'r dangosydd perfformiad, gyda 99% o ymholiadau'n cael eu cwblhau o fewn y terfyn amser 7 diwrnod gwaith ar gyfer 2020/2021. Er bod gostyngiad wedi bod yn nifer cyffredinol yr Adroddiadau yn y cyfnod hwn, mae llwyddiant y tîm i gynnal a gwella'r dangosydd perfformiad yn y cyfnod ansicr hwn yn dangos eu hymroddiad a'u hymrwymiad i ddiogelu'r dinasyddion hynny yn Sir Ddinbych a nodwyd fel Oedolion mewn Perygl.

#### **4.7 Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) - gweithgarwch 2020 - 21**

4.7.1 Bu cynnydd bychan yn nifer y ceisiadau a gafwyd: 336 o'i gymharu â 326 y llynedd.

4.7.2 Rhoddwyd 169 awdurdodiad, gostyngiad ar y 140 y llynedd. Fodd bynnag, nid yw'r ffifyrau cyffredinol hyn yn adlewyrchu graddau'r cynnydd a wnaed yn ystod chwarter olaf y flwyddyn. Yn sgil newidiadau mewn ymarfer o ganlyniad i Covid-19, bu'n rhaid i ni roi awdurdodiadau byrrach yn ystod y 12 mis diwethaf, sydd wedi arwain at gynnydd yn y rhestr aros DoLS. Fodd bynnag, yn chwarter olaf y flwyddyn, rydym wedi gweld gostyngiad o 36% (Ch3=273, Ch4=174) yn y rhestr aros DoLS a chynnydd o 78% (Ch3=37, Ch4=66) yn nifer yr asesiadau a gwblhawyd o fewn y chwarter olaf. Gobeithir y bydd y cynnydd hwn mewn awdurdodiadau a'r gostyngiad yn ein rhestr aros yn helpu Sir Ddinbych i weithio a pharatoi ar gyfer gweithredu'r Trefniadau Diogelu Rhyddid ym mis Ebrill 2022.

4.7.3 Cyflwynwyd cyfanswm o 27 o geisiadau i'r Llys mewn perthynas ag Amddifadedd mewn Lleoliadau Cartref. Mae'r gwaith hwn yn parhau ac wedi'i ymgorffori yng ngwaith achos rheolaidd y tîm Anableddau Cymhleth, a bydd hyn yn ddefnyddiol iawn unwaith y bydd y Mesurau Amddiffyn Rhyddid wedi dod i rym.

#### **4.8 Llwyddiannau allweddol 2020 -21**

4.8.1 Rydym wedi cynnal y gwelliannau yn erbyn dangosydd perfformiad Llywodraeth Cymru o ymholiadau adran 126 a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod gwaith.

4.8.2 Parhau gyda'r archwiliadau chwarterol o sampl o achosion diogelu er mwyn adolygu ansawdd a chysondeb y gwaith, wrth sicrhau nad yw hyn wedi cael ei gyfaddawdu gan llwyddiant y dangosydd perfformiad. Gyda rhagor o ffocws ar nodi meysydd ymarfer/ansawdd newydd h.y. cam ymholiadau a126 yn ystod Covid19.

4.8.3 Addasu i ffyrdd newydd o weithio h.y. cynnal cyfarfodydd strategaeth a chyfarfodydd trafod strategaeth Adran 5 drwy blatfformau ar-lein. Mae cynnal cynrychiolaeth dda yn y cyfarfodydd hyn wedi cefnogi arferion da ac wedi sicrhau fod y broses yn canolbwytio ar yr unigolyn ac nad yw'n cael ei arwain gan y broses h.y. Cynadleddau Amddiffyn Oedolion.

4.8.4 Mae rhaglen a thempled atgyfeirio ar gyfer Adran 5 *Honiadau/Pryderon diogelu ynghylch ymarferwyr a'r rhai hynny mewn swyddi o ymddiriedaeth* wedi cael eu datblygu a'u defnyddio, er mwyn caniatáu i unrhyw wybodaeth ychwanegol gael ei rhannu â'r Awdurdod Lleol pan nad oes llawer o wybodaeth wedi'i chynnwys yn yr adroddiad diogelu oedolion. Hefyd, mae'r broses ar Paris ar gyfer cofnodi gwaith Adran 5 yn cyd-fynd ag ymarfer o fewn Gwasanaethau Plant.

4.8.5 Roedd gostyngiad yn y rhestr aros DoLS gan ein bod wedi rhoi adnoddau staff ychwanegol i gefnogi dyletswyddau diogelu o fewn Sir Ddinbych fel rhan o barhad busnes.

4.8.6 Mae datblygu cysylltiadau gwell o fewn timau eraill megis Contractau a Monitro ac Un Pwynt Mynediad, wedi sicrhau bod unrhyw themâu neu dueddiadau diogelu'n cael eu nodi'n gynt. Mae'r gwelliannau i'n prosesau cyfathrebu a rhannu gwybodaeth berthnasol wedi cefnogi arferion da ac wedi sefydlu gweithrediad Gweithdrefnau Diogelu Cymru ymhellach.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r trefniadau Diogelu Oedolion yn cyfrannu'n uniongyrchol at y Flaenoriaeth Gorfforaethol ar gyfer Cymunedau Gwydn: mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'r gwasanaeth hwn eisoes yn cael ei gynnwys o fewn cyllidebau presennol.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les gan nad yw'r adroddiad hwn yn gwneud unrhyw newid i bolisi.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

Amherthnasol.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi'n uniongyrchol o'r adroddiad hwn

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Nid ydym wedi dirprwyo ymholiadau A126 i asiantaethau eraill eto ac mae risg y gallai hyn gael effaith uniongyrchol ar y 'Dangosydd Perfformiad.' Mae gwaith yn mynd rhagddo ar sail ranbarthol, gyda chynllun peilot ar y gweill rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Awdurdod Lleol Sir Fôn a Wrecsam i archwilio pa gefnogaeth fydd ei hangen ar y rheiny sy'n ymgymryd â dyletswyddau ar ran yr Awdurdod Lleol.

10.2 Mae ychydig o ansicrwydd yn parhau o ran paratoi ar gyfer y Trefniadau Diogelu Rhyddid. Er y cadarnhawyd mai'r dyddiad ar gyfer eu gweithredu yw Ebrill 2022, nid oes ymgynghoriad wedi cael ei gynnal ar y Codau Ymarfer na chynnwys yr hyfforddiant y bydd angen ei weithredu. Fodd bynnag, rydym wedi parhau i reoli llwyth gwaith ac mae systemau yn eu lle i flaenoriaethu'r ceisiadau a dderbyniwyd. Rydym wedi cefnogi 5 Gweithiwr Cymdeithasol a 5 Therapydd Galwedigaethol i gael mynediad at y modiwl Asesydd Lles Gorau sydd ar gael drwy Brifysgol Caer. Mae staff hefyd wedi cael mynediad at Ddiweddariadau Cyfreithiol Asesydd Lles Gorau gan ddefnyddio Gweminar drwy Hyfforddiant Edge. Mae'r opsiynau dysgu ar-lein wedi gwneud y cyfleoedd hyn ar gyfer diweddaru gwybodaeth ac arferion yn fwy hygrych i bobl ac yn haws i'w cynnwys mewn amserlenni gwaith prysur. Rydym yn gobeithio cyflwyno Grwpiau Dysgu dros y 12 mis nesaf ynghylch pynciau arbennig.

10.3 Wrth i gyfyngiadau lacio, mae Darparwyr yn awyddus i ail-gyflwyno mynediad i deuluoedd a Chynrychiolwyr Person Perthnasol cyflogedig at gartrefi gofal. Mae bellach angen lliniaru'r risg blaenorol a amlygwyd y llynedd mewn perthynas â'r posibilrwydd i hawl unigolyn i herio gael ei fethu/cyfaddawdu. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i Ddarparwyr adolygu mynediad unwaith eto yn ystod misoedd y gaeaf. Mae'n debygol felly y bydd yn rhaid i ni roi awdurdodiadau byrrach gan roi mwy o bwysau ar

y rhestr aros DoLS, a allai gael effaith ar ein paratoadau ar gyfer y Trefniadau Diogelu Rhyddid yn 2022.




## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae pwerau'r Pwyllgor Craffu mewn perthynas â'r mater hwn wedi'u pennu yn Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7.4.2(b) o Gyfansoddiad y Cyngor.

### **Swyddog Cyswllt:**

Nerys Tompsett,  
Rheolwr Tîm Diogelu Gwasanaethau Gweithredol  
01824 706675

## Appendix 1



## **Appendix 2 – Case examples**

### **Case A**

#### **Overview of case**

A DoLS referral was submitted by the EMI nursing home (the Managing Authority) following the admission from hospital of A.

A's first language was Cantonese. To support a safe discharge from hospital, BCU had involved a registered Cantonese interpreter. At the time of this assessment it recorded at that A had capacity to make decisions in relation to care and support needs and was consenting to going into a care home.

The Safeguarding team were required to undertake further assessments in relation to this DoLS referral. The first mental capacity assessment recorded that A lacked capacity in regards to her residency, care and support. The S12 doctor had involved a family member to act as interpreter, in order to complete his assessment. It was the family's wish that A was placed in a care home as they could not meet her needs at home, they identified that this care home needed to be close enough for them to visit, when restrictions would allow.

#### **Action taken**

There were changes in A's capacity, the first assessment that was completed a few months earlier in hospital, concluding that A had capacity with regards to residency, care /support needs. It was agreed that a more robust assessment with an appropriate interpreter for A was required, rather than relying on family to communicate the questions relevant to completing the mental capacity assessment.

There were many attempts in trying to identify a Cantonese speaking s12 doctor who would be available to go to the home to carry out these assessments, but none were identified. Further action was required to source a Cantonese interpreter within a timely manner. At this point A was objecting to the current restrictions and was attempting to self-harm.

A face to face assessment was completed in the care home by the S12 doctor, by adhering to the necessary precautions during lock down, with the involvement of the

interpreter via a video call. This was the same interpreter that had been used several months previously in hospital. A remembered the interpreter and was very pleased to be able to speak in her own language. The outcome of this second assessment, supported that A had capacity for her residence and care needs. She understood that she needed assistance and these needs could not be met at home. She was very unhappy at the current home as she was not able to speak to anyone and the food was foreign to her and not to her taste. She was unable to make her needs and wishes known and due to Covid-19, all visits by family were severely restricted.

### **The difference/impact to the Citizen**

There are now plans in place to move A to a Nursing Home in the Chinese Quarter in Liverpool where she can speak in her native tongue and have access to familiar diet. Whilst it acknowledged that the family did not want their relative to be so far away due to visiting, it was the wishes and views of A that needed to be at the centre of all these decisions. As A had the mental capacity to make a decision about being accommodated at this Care Home and was able to consent to her care plan, she was not eligible for consideration under the deprivation of liberty safeguards and the referral was closed.

### **Case B**

B is a 22 year old female with learning difficulties and mental health issues who was discharged from a psychiatric inpatient unit, to the address of a man whom she had befriended on the internet.

### **Overview of concern raised**

B had refused offers of temporary accommodation by the homelessness service. There was concern regarding the nature of the relationship between B and the man with whom she was staying, and the potential risks she may be exposed to.

B was deemed to lack mental capacity to form relationships over social media.

### **Action taken**

- Multi -Agency meeting convened under the Self -Neglect Procedures which including representation from mental health, legal, homelessness prevention, police, probation and adult social care services.
- Checks were carried out in relation to the individual B was residing with, and he was found to be in breach of a license agreement. He was also deemed a specific risk to vulnerable women.
- Actions taken by the probation serve and police ensured that he was arrested and returned to prison immediately.
- B was enabled to access safe accommodation with a family member

### **The difference/impact to the Citizen and or the service**

Following subsequent meetings under the Adults who self-neglect Procedure, B was able to access more suitable accommodation with a significant package of support from adult services

## **Appendix 3 - Section 5: Safeguarding Allegations/Concerns about Practitioners and Those in a Position of Trust Practice Guide**

### **OVERVIEW: WALES SAFEGUARDING PROCEDURES – SECTION 5**

The procedures set out arrangements for responding to safeguarding concerns about those whose work, either in a paid or voluntary capacity, which brings them into contact with children or adults at risk. It also includes individuals who have caring responsibilities for children or adults in need of care and support and their employment or voluntary work brings them into contact with children or adults at risk.

It is intended that the procedures support internal disciplinary procedures and provides guidance to deal appropriately with any concerns or allegations of professional abuse, neglect or harm and to ensure that all allegations of abuse made against staff or volunteers working with children, young people and adults at risk are dealt with in a fair, consistent and timely manner.

The main factor to consider when applying the procedures is whether the individual subject to the allegation or concern, occupies a position of trust; this is where a member of staff / volunteer is in a position of power or influence over a child or adult at risk, by virtue of the work or nature of activity being undertaken.

Every Council has a duty to manage allegations and concerns about any person who works with children and young people and adults at risk in their area. This includes Council staff, staff or partner agencies and volunteers.

Managing cases under these procedures applies to a wider range of allegations than those in which there is reasonable cause to believe a child or adult at risk is suffering, or is likely to suffer harm. It also applies to concerns that might indicate that a person is unsuitable to continue to work with children or adults at risk in their present position or in any capacity. It should be used in all cases in which it is alleged that a person who works with children or adults at risk has:

- Behaved in a way that has harmed or may have harmed a child or adult at risk
- May have committed a criminal offence against a child or adult at risk or that has a direct impact on the child or adult at risk

- Behaved towards a child, children or adults at risk in a way that indicates they are unsuitable to work with both children and adults

It can be difficult to determine what may fall into the category of "unsuitable to work with children or adults at risk". The employer should consider whether the subject of the allegation or concern has:

- Been the subject of criminal procedures that indicate a risk of harm to a child or adult at risk
- Caused harm or possible harm to a child or adult at risk and there is a risk in the working, volunteering, or caring environment
- Contravened or continued to contravene their agency's Safeguarding Policy and Procedures
- Failed to understand or comply with the need for clear personal and professional boundaries in the work place
- Behaved in a way in their personal life which could put children and adults at risk of harm
- Behaved in a way that undermined the trust placed in them by virtue of their position
- Children who are subject to Child Protection Procedures
- Has caring responsibilities for an adult who is subject to Adult Protection Procedures

#### Overarching principles

Ensure that children at risk and adults at risk are safeguarded from individuals who may pose a risk in the setting within which they work or volunteer

Ensure that allegations and safeguarding concerns are dealt with in a fair, consistent and timely manner and in accordance with statutory guidance

Ensure that there is appropriate support, information and advice for all those affected during this process

Ensure that individuals who are not suitable to work with children and adults at risk are prevented from doing so by notification to the Disclosure and Barring Service and other relevant and professional bodies

Local authorities must ensure there is a senior manager with responsibility for ensuring these procedures are adhered to. This role can be delegated but there needs to be an overarching senior manager responsible.

The definition of 'work' includes the following:

- Those in paid employment, including temporary, students/trainees; casual, agency staff and those who are employed as Personal Assistants under the direct payment scheme
- Individuals undertaking unpaid voluntary work
- Individuals who are self-employed and work directly, or are contracted to work, in the provision of services to children and adults at risk

The procedures are underpinned by the following legislation and guidance and should be read in conjunction with them:

- Social Services and Well-being (Wales) Act 2014
- Social Services and Well-being (Wales) Act 2014: Working Together to Safeguard People: Volume 5 – Handling Individual Cases to Protect Children at Risk
- Social Services and Well-being (Wales) Act 2014: Working Together to Safeguard People: Volume 6 – Handling Individual Cases to Protect Adults at risk
- Keeping learners safe: managing allegations of abuse against teachers and others engaged in education services in Wales 2015

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



**Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau**

**Dyddiad y cyfarfod 8 Gorffennaf 2021**

**Swyddog Arweiniol Rhian Evans - Cydlynnydd Craffu**

**Awdur yr Adroddiad Rhian Evans - Cydlynnydd Craffu**

**Teitl Rhaglen Waith Craffu**

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn gofyn i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau adolygu ei raglen gwaith i'r dyfodol drafft. Wrth wneud hyn gofynnir i'r Pwyllgor ystyried goblygiadau'r ffocws ar weithrediadau critigol i fusnes yn ystod cyfnod argyfwng y pandemig COVID -19 a'r gwaith sy'n digwydd neu'n cael ei gynllunio dan y trefniadau adfer, tra ar yr un pryd yn cadw mewn cof yr eitemau busnes hynny oedd eisoes ar ei raglen gwaith cyn y pandemig.

## **2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?**

Gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei raglen gwaith i'r dyfodol, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar faterion perthnasol.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod y Pwyllgor yn:

- 3.1 ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd ac yn cymeradwyo, diwygio neu'n newid ei raglen gwaith i'r dyfodol fel y gwêl yn briodol; ac
- 3.2 cytuno ar y prif bwyntiau neu'r themâu o'r cyfarfod hwn y dymuna dynnu sylw atynt trwy'r wasg a/neu'r cyfryngau cymdeithasol.

## **4. Manylion yr Adroddiad**

- 4.1 Mae Erthygl 7 Cyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych yn nodi cylch gorchwyl, swyddogaethau ac aelodaeth pob Pwyllgor Craffu, yn ogystal â rheolau gweithdrefnau a trafodaethau.
- 4.2 Mae'r Cyfansoddiad yn amodi bod yn rhaid i bwyllgorau craffu'r Cyngor osod, ac adolygu'n rheolaidd, rhaglen ar gyfer eu gwaith i'r dyfodol. Trwy adolygu a blaenorriaethu materion, gall aelodau sicrhau bod y rhaglen waith yn cyflwyno agenda a arweinir gan yr aelodau.
- 4.3 Arfer sydd wedi'i fabwysiadu yn Sir Ddinbych ers nifer o flynyddoedd yw bod pwyllgorau craffu'n cyfyngu ar nifer yr adroddiadau a ystyri mewn unrhyw gyfarfod i uchafswm o bedwar, yn ogystal ag adroddiad rhaglen waith y Pwyllgor ei hun. Nod y dull hwn yw hwyluso trafodaeth fanwl ac effeithiol ar bob pwnc.
- 4.4 Yn y blynnyddoedd diweddar mae Llywodraeth Cymru (LIC) ac Archwilio Cymru wedi tynnu sylw at yr angen i gryfhau rôl craffu ar draws Llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys defnyddio craffu fel modd o ymgysylltu â phreswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth. O hyn allan, disgwylir i graffu ymgysylltu'n well ac yn amlach â'r cyhoedd gyda bwriad i sicrhau penderfyniadau gwell a fydd yn y pen draw yn arwain at well canlyniadau i ddinasyyddion. Bydd Archwilio Cymru yn mesur effeithiolrwydd craffu wrth gyflawni'r disgwyliadau hyn.
- 4.5 Gan ystyried y weledigaeth genedlaethol ar gyfer craffu a chanolbwytio ar yr un pryd ar flaenorriaethau lleol, gwnaeth y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu (GCIGC) argymhell yn ddiweddar y dylai pwyllgorau craffu'r Cyngor, wrth benderfynu ar eu rhaglenni gwaith, ganolbwytio ar y meysydd allweddol canlynol:
- arbedion ar y gyllideb;
  - cyflawni Amcanion y Cynllun Corfforaethol (gyda phwyslais arbennig ar y modd o'u cyflawni yn ystod cyfnod o galedi ariannol);
  - unrhyw eitemau eraill a gytunwyd gan y Pwyllgor Craffu (neu'r GCIGC) fel blaenorriaeth uchel (yn seiliedig ar y mein prawf profion PAPER - gweler ochr gefn y 'Ffurflen Cynnig gan Aelodau' yn Atodiad 2);
  - Materion brys na ragwelwyd, neu flaenorriaeth uchel; a

